

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Tachwedd 2018

Amser: 13.29 – 14.45

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mohammad Asghar (Oscar) AC Neil Hamilton AC Rhianon Passmore AC Adam Price AC Jenny Rathbone AC
Swyddfa Archwilio Cymru:	Adrian Crompton – Archwilydd Cyffredinol Cymru Matthew Mortlock Anne Beegan Andrew Doughton
Staff y Pwyllgor:	Fay Bowen (Clerc) Meriel Singleton (Ail Clerc) Claire Griffiths (Dirprwy Clerc)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- 1.1 Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, cafodd Adam Price AC ei enwebu gan Rhianon Passmore AC i'w ethol fel Cadeirydd dros dro o dan Reolau Sefydlog



17.22 a 18.6. Cytunodd y Pwyllgor ac etholwyd Adam Price AC fel Cadeirydd dros dro yn absenoldeb Nick Ramsay AC.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd dros dro yr Aelodau i'r cyfarfod Pwyllgor.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Nick Ramsay AC a Jack Sargeant AC.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 Cytunwyd y byddai'r Clercod yn anfon Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Wasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig ymlaen at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig; Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

2.1 Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

2.2 Craffu ar Gyfrifon 2017–18: Gohebiaeth gan Gomisiwn y Cynulliad (20 Tachwedd 2018)

3 Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ledled Cymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

3.1 Briffiodd yr Archwilydd Cyffredinol yr Aelodau ar yr adroddiad, sef rheoli apwyntiadau cleifion allanol ar draws Cymru.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r mater hwn os na all y Pwyllgor lechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon drefnu'r mater hwn yn ei raglen waith.

4 Gwasanaethau radioleg – adroddiad cryno: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

4.1 Briffiodd yr Archwilydd Cyffredinol yr Aelodau ar y gwasanaethau radioleg – adroddiad cryno cenedlaethol.

4.2 Nododd y Pwyllgor y llwybr cadarnhaol yn y maes hwn a chytunodd i ofyn am ddiweddariadau ysgrifenedig rheolaidd gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi'r cynnydd wrth gyflawni'r cynllun gweithredu cenedlaethol.

5 Blaenraglen waith – Gwanwyn 2019

5.1 Nododd yr Aelodau Flaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer tymor hydref 2018 a chytuno i wneud y canlynol:

- Cynnal ymchwiliad i'r Fenter Twyll Genedlaethol;
- Gwneud gwaith allgymorth fel rhan o'r ymchwiliad i Wasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau;
- Gofyn am ddiweddariad ar reoli iechyd meddwl ar ôl yr adolygiadau a gynhaliwyd i ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ynghyd â diweddariad ar y system cymorth ac ymyriad ehangach a dargedir gan y llywodraeth sydd ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- Cynnal ymchwiliad i Gyllid Busnes yn nhymor haf 2019;
- Cynnal ymchwiliad i drefniadau llywodraethu yn Llywodraeth Cymru yn nhymor haf 2019; a
- Nodi y trefnir i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad i gostau gweithwyr asiantaeth a locwm GIG Cymru yng ngwanwyn 2019 a, chan ddibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, gynnal ymchwiliad.